Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi

## Mawrth 2018





© Hawlfraint y Goron 2018
WG34658 ISBN digidol 978 1 78937 056 0

# Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi

Mawrth 2018

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017[1] yn sefydlu'r dreth gwarediadau tirlenwi yng Nghymru ac yn nodi'r trefniadau gweithredol ar gyfer y dreth honno, wrth ochr Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016. Bydd hyn yn sicrhau y bydd treth ar warediadau i safleoedd tirlenwi yn parhau i gael ei rheoli a'i chasglu yng Nghymru pan gaiff y dreth dirlenwi ei datganoli i Gymru ym mis Ebrill 2018. Bydd cyflwyno'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn amddiffyn refeniw o drethi er mwyn gallu parhau i fuddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

1.2 Mae Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn cydnabod y gallai gwaredu gwastraff i safleoedd tirlenwi gael effeithiau negyddol ar gymunedau, a bydd yn ariannu prosiectau sy'n ceisio lleihau'r effeithiau hyn.

<u>**Manylion Cyswllt Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru**</u>

1.3 Cynllun Llywodraeth Cymru yw'r cynllun cymunedau. Bydd yn cael ei ddosbarthu dan gontract rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2022 gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ar ein rhan.

1.4 Dylid anfon unrhyw ymholiadau at y cyfeiriad e-bost hwn.

1.5 Bydd ffurflenni cais a chanllawiau ar gael ar wefan Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru o ddiwedd mis Ebrill 2018 ymlaen er mwyn cefnogi lansiad rownd gyntaf y ceisiadau i'r cynllun.

https://www.wcva.org.uk/funding/landfill-disposals-tax-communities-scheme?seq.lang=cy-GB

## 2. Egwyddorion Cyffredinol

2.1 Bydd y cynllun yn seiliedig ar gyfres o egwyddorion cyffredinol, a fydd yn darparu fframwaith cyflawni gweithredol i'r cynllun. Mae'r egwyddorion cyffredinol yn canolbwyntio ar wella llesiant cymunedol drwy brosiectau sy'n gwella ansawdd lle, darparu buddion cymunedol ehangach, a sicrhau bod cymaint â phosibl o gyllid yn cyrraedd y mentrau. Nod Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi fydd:

---

[1] http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2017/3/contents/enacted/welsh

**Gwella ansawdd lle**

- Hyrwyddo ymddygiad amgylcheddol cadarnhaol;
- Lleihau'r effeithiau negyddol ar gymunedau yr effeithir arnynt gan waredriad deunyddiau fel gwastraff i safleoedd tirlenwi;
- Gwella mannau sy'n bodoli eisoes, boed y rheini'n fannau agored neu yn fannau ffisegol.

**Darparu buddion cymunedol ehangach**

- Cefnogi cyfranogiad cymunedol – gwirfoddoli, datblygu sgiliau ac ati;
- Hyrwyddo a chynnal perthynas dda rhwng gweithredwyr safleoedd tirlenwi, cymunedau a'r corff dosbarthu;
- Cefnogi prosiectau cynaliadwy nad ydynt yn dibynnu ar gyllid parhaus.

**Sicrhau bod cymaint â phosibl o gyllid yn cyrraedd y mentrau**

- Cynnal model gweinyddol cost effeithiol;
- Gwneud cyllid yn hygyrch trwy ddarparu amcanion clir a dealladwy a phroses ymgeisio syml.

## 3. Prosiectau

3.1 Bydd Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn ariannu prosiectau sy'n cefnogi bioamrywiaeth, lleihau gwastraff a gwelliannau amgylcheddol eraill. Nod cyffredinol y cyllid yw helpu cymunedau sy'n cael eu heffeithio gan warediadau gwastraff i safleoedd tirlenwi.

**1. Bioamrywiaeth** - diogelu a hyrwyddo rhywogaeth benodol neu gynefin penodol lle y gwelir bioamrywiaeth naturiol:

- Helpu rhywogaethau brodorol, peilliad a phlannu
- Adfer, cynnal a gwella cynefinoedd naturiol
- Ymgysylltu a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn ymwreiddio bioamrywiaeth

**2. Lleihau Gwastraff a dargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi** – hyrwyddo ymwybyddiaeth ac arfer gorau er mwyn lleihau maint y gwastraff a gynhyrchir:

- Annog pobl i ailddefnyddio, adfer, ailgylchu ac atal gwastraff
- Lleihau gwastraff bwyd a chefnogi mentrau fel compostio
- Ymgysylltu a chefnogi dealltwriaeth er mwyn gallu ystyried gwastraff fel adnodd

**3. Gwelliannau Amgylcheddol** – cyflwyno buddion cymunedol ehangach trwy wella ansawdd lle:

- Creu mannau gwyrdd cymunedol a chefnogi seilwaith gwyrdd
- Ailwampio mannau sydd wedi'u hesgeuluso ac sydd mewn cyflwr gwael fel y gall cymunedau eu hailddefnyddio
- Cynnal neu wella cyfleusterau cymunedol, er enghraifft, neuaddau cymunedol

3.2 Bydd angen i ymgeiswyr ddangos bod eu prosiectau'n gydnaws â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, yn arbennig:

- Ffyniant i Bawb: y Strategaeth Genedlaethol[2]
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[3]
- Polisi Adnoddau Naturiol[4]
- Symud Cymru Ymlaen[5]

3.3 Gan ddibynnu ar y prosiect sy'n cael ei gyllido, efallai y bydd angen dangos cysondeb â blaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru fel:

- Tuag at Ddyfodol Diwastraff[6]
- Cynllun Adfer Natur[7]
- Strategaeth Tlodi Plant Cymru[8]

3.4 Ceir gwybodaeth fanylach ar dudalen Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi ar wefan Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

## 4. Meini Prawf Cymhwysedd

4.1 Mae Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn cydnabod y gallai gwaredu gwastraff i safleoedd tirlenwi gael effeithiau negyddol ar gymunedau, a bydd yn ariannu prosiectau sy'n ceisio lleihau'r effeithiau hyn. Bydd y cynllun yn canolbwyntio ar ardaloedd daearyddol sydd o fewn pum milltir i safle tirlenwi (hyd nes bod gwarediadau trethadwy wedi eu cwblhau) ac o fewn pum milltir i orsaf trosglwyddo gwastraff sy'n anfon o leiaf 2,000 o dunelli o wastraff i safle tirlenwi bob blwyddyn.

4.2 Mae'r map yn dangos yr ardaloedd cymwys i gael cyllid dan Gynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi.

4.3 Bydd y map diweddaraf yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, er mwyn i brosiectau fedru cadarnhau a ydynt yn gymwys ai peidio, a dewis yr ardal ger safle tirlenwi neu orsaf trosglwyddo gwastraff a fydd yn elwa o'r prosiect.


4.4 Bydd prosiectau bioamrywiaeth da sy'n ymestyn tu hwnt i'r ffin o bum milltir yn cael eu hystyried mewn ffordd ymarferol er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael eu gwrthod ar unwaith - gan gofio nad yw cynefinoedd (fel afonydd) yn cydnabod ffiniau. Bydd ceisiadau sy'n syrthio i'r categori hwn yn cael eu hystyried fesul achos gan y corff dosbarthu, ac fe fydd rhesymeg unrhyw benderfyniadau yn cael ei gofnodi'n glir.

4.5 Mae **Ffigur 1** yn rhoi amlinelliad o'r ardaloedd sy'n gymwys i gael cyllid dan Gynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi o fis Ebrill 2018 ymlaen.

---

[2] http://gov.wales/docs/strategies/170919-prosperity-for-all-cy.pdf
[3] http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/2/contents/enacted/welsh
[4] http://gov.wales/docs/desh/publications/170821-natural-resources-policy-cy.PDF
[5] http://gov.wales/docs/strategies/160920-taking-wales-forward-cy.pdf
[6] http://gov.wales/topics/environmentcountryside/epq/waste_recycling/zerowaste/?lang=cy
[7] http://gov.wales/topics/environmentcountryside/consmanagement/conservationbiodiversity/?lang=cy
[8] http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/150327-child-poverty-strategy-walesv2-cy.pdf

**Ffigur 1 - Ardaloedd sy'n gymwys i gael cyllid dan y cynllun**



## 5. Cyllid

5.1 Mae £1.5m o gyllid y Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi'i neilltuo i Gynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi o fis Ebrill 2018 hyd at 2021-22.

5.2 Bydd y cynllun yn cynnig grantiau yn amrywio rhwng £5,000 a £50,000 gydag un prosiect sylweddol (dros £50,000) yn cael ei ariannu'n flynyddol.

5.3 Bydd y prosiect sylweddol yn ddarostyngedig i uchafswm o £250,000. Mae'r uchafswm hwn ar gyfer cyfraniad y grant drwy'r cynllun yn unig, ac ni fydd yn cynnwys gwerth unrhyw arian cyfatebol sydd wedi'i gynnwys yng nghyfanswm cost y prosiect. Gellid adolygu'r uchafswm a nifer y prosiectau sylweddol sy'n cael eu hariannu ar sail y dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg wrth i'r cynllun gael ei weithredu.

5.4 Bydd ceisiadau ar gyfer y prif grantiau rhwng £5,000 a £50,000 yn mynd drwy broses un cam mewn dwy rownd ariannu bob blwyddyn ariannol. Bydd galwadau ar gyfer cynigion am grant yn cael eu cyhoeddi yn y gwanwyn ac yn yr hydref, tua chwe mis ar wahân. Bydd ceisiadau ar gyfer grant mawr £50,000 ac uwch yn dilyn proses dau gam, gydag un dyfarniad blynyddol.

**Arian Cyfatebol**

5.5 Nid yw'n ofynnol cael arian cyfatebol ar gyfer y cynllun, ac mae modd iddo gynnal 100% o gostau'r prosiect. Er nad yw'r cynllun yn gofyn yn benodol am arian cyfatebol, gellid ei ddefnyddio i ategu prosiectau ehangach mewn cysylltiad â ffynonellau eraill o gyllid.

## 6. Gweithdrefn gwyno

6.1 Pan fydd cais am grant yn cael ei wrthod, bydd y llythyr sy'n cael ei anfon yn egluro'r rhesymau am hynny. Gallai'r rhesymau hynny ymwneud â chymhwystra, sgôr, y cyllid sydd ar gael neu unrhyw gyfuniad o'r rhain. Bydd y llythyr yn rhoi manylion am y rhesymau dros y penderfyniad, yn gysylltiedig â chwestiynau'r cais a'r canllawiau a ddarparwyd. Bydd manylion cyswllt yn cael eu darparu er mwyn cael adborth manylach gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a ffynonellau cymorth ar gyfer ceisiadau am gyllid yn y dyfodol.

6.2 Ar gyfer yr holl gynlluniau grant, panel cynghori y grant dan sylw sy'n penderfynu p'un ai i argymell grant neu beidio, a'r swm. Mae penderfyniad y panel yn derfynol; nid oes proses apelio. Fodd bynnag, mae hawl gan yr ymgeiswyr i'r cynllun grant i wneud cwyn am weinyddiaeth y cynllun gan ddilyn y weithdrefn sydd i'w gweld ym mholisi cwynion Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, sydd ar gael ar eich cais. Bydd yr holl ymgeiswyr yn cael gwybod am bolisi cwynion Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, a sut i fynegi pryderon os ydynt yn anfodlon ag unrhyw agwedd ar y cynllun.